**TAG UG/Uwch**

1373/51

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF CY3

## DEFNYDDIO'R IAITH, A BARDDONIAETH

***(Papur Ysgrifenedig)***

P.M. DYDD IAU, 19 Mai 2011

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio $\frac{3}{4}$ awr ar Adran A ac $1\frac{1}{4}$ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

SJJ*(S11-1373-51)

## Adran A

## Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

*(a)* Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, **un** ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd: [10]

mai
darllenir
cânt
na fyddai
gennyt

*(b)* Mae **dau** wall ymhob un o'r brawddegau isod. **Lluniwch dair colofn**: yn y gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro. [20]

(i) Dylai'r atebion roddir ar y daflen hon fod yn seiliedig ar waith ymchwil chwi yn ystod y tymor.

(ii) Gwelais plentyn yn eistedd wrth ei hun yn yr orsaf drên.

(iii) Ni allwn i fynd i weld y ddrama sy'n cael ei llwyfannu heno am fod dim arian gennyf.

(iv) Caf, wrth ddarllen y gerdd, mwynhad arbennig, er na chaiff fy ffrind yr un pleser wrth ei ddarllen.

(v) Os byddai'r disgyblion wedi chwarae'n dda, byddai canlyniadau'r gêm wedi bod mor llwyddiannus â erioed.

*(c)* Dyma ddarn o adolygiad nofel a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae **deg gwall** yn yr adolygiad. Ailysgrifennwch y darn gan **danlinellu** pob gwall a **gywirwyd**. [10]

Dyma nofel gelfydd, gafaelgar sy'n ymwneud a pherthynas pobl â'i gilydd. Dychwelyd i'r dref lle caiff ei magu a wna Carol ar ôl blynyddoedd yn Lloegr. Mae'n ailgyfarfod â Helen sy'n gweithio yn y gwaith cemegol, a Luc, archeolegydd. Deuir clymau'r gorffennol a'r presenol i'r wyneb gan achosi tyndra a sylweddolwn mai nid yr hyn y tybiwn yw'r gwirionedd.

Ardal Amlwch yw'r lleoliad gyda digwyddiadau Gŵyl y Llychlynwyr yn y cefndir. Mae'r awdures wedi edrych y ffeithiau gwyddonol i fyny a'i defnyddio i gyfoethogi'r nofel. Mewn canlyniad mae hon yn nofel drawiadol.

## Adran B

## Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

*Wrth ateb, dylech gofio:*

- *defnyddio nifer digonol o gerddi (o leiaf dair cerdd) wrth ymateb i ofynion y cwestiwn*
- *dadansoddi arddull*
- *cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol*
- *defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.*

**Naill ai**

*(a)* Trafodwch sut y mae cerddi **Waldo Williams a T.H. Parry-Williams** wedi'ch **sbarduno i feddwl** o ran eu **themâu** a'u **syniadaeth**. Dylech gyfeirio hefyd at **arddull** y beirdd yn y cerddi hyn. [80]

**Neu**

*(b)* Yn y gerdd 'Sgrifen yn y Tywod' y mae'r bardd Iwan Llwyd yn **cyfleu yn glir ei ymateb** i ryfel. Trafodwch y **gerdd hon** a'i **chymharu** â **dwy gerdd** arall, un o waith **Gerallt Lloyd Owen** ac un o waith **Ceri Wyn Jones** sy'n dangos eu **hymateb hwythau i ryfela a'i effeithiau**. Cofiwch gyfeirio at effeithiolrwydd yr **arddull** yn y cerddi. [80]

**CBAC WJEC**

# TAG UG/Uwch

1373/51-A

## CYMRAEG - IAITH GYNTAF CY3
## *WELSH - FIRST LANGUAGE CY3*
## DEFNYDDIO'R IAITH, A BARDDONIAETH
## *USE OF LANGUAGE, AND POETRY*

(Arholiad Ysgrifenedig)

*(Written Examination)*

P.M. DYDD IAU, 19 Mai 2011

*P.M. THURSDAY, 19 May 2011*

2 awr

*2 hours*

| **Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau**<br>***For the attention of the Examinations Officer*** |
|---|

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio $^3/_4$ awr ar Adran A ac $1^1/_4$ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*In addition to this paper, you will need a 12 page answer book.*

***Copies of the poetry studied and dictionaries are not permitted.***

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*

*Answer the* ***two*** *questions.*

*Write your answers in the answer booklet that is provided.*

*Where it is necessary to express your opinions you should give reasons for them and refer to the opinions of others when appropriate.*

*You are reminded that assessment will take into account the quality of written communication in your answer.*

*You are advised to spend $^3/_4$ hour on Section A and $1^1/_4$ hours on Section B.*

*You should spend 15 minutes to plan your essay in Section B.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks is specified in brackets at the end of each question or part-question.*

SJJ*(S11-1373-51-A)